
# Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE No. 24

## A & J YOUNG : COUNTRY POTTERS



'When I am sitting throwing at the wheel, looking out of the window to where the farmer is steadily ploughing furrows across the field opposite, I sometimes think that there is very little difference in our work.'

This image of Andrew's remained with me long after I had left the lanes of Norfolk and my visit to the Young's workshop. It remained, not because of the romantic allusion to enduring country life, but because it expresses so much about the Young's ideas and their work. The comparison was made seriously as they have a deep respect for skill and recognise the planning and accuracy required to plough a field properly. The choice of image was also apt, expressing for me their modest and unpretentious view of their work, the quiet thoroughness with which they apply themselves to achieve a rightness, a simple balance and beauty of form.

However, the comparison with ploughing also expresses a tension that they feel in their working lives. After twelve years developing and making their range of domestic pottery they remain completely committed to and bound up in the rythmic process of production, striving for perfection and enjoying the growing rows of the different pots lining up on the workshop shelves. But at the same time they feel a frustration with the repetition and the long hours which they put in. As they sit at their wheels they are also daunted by the vision of the rows of pots stretching into the future, yet to be thrown.

The Youngs make a complete range of domestic pottery; bread crocks, baking dishes, colanders, through plates and mugs to butter dishes and lemon squeezers. The range has been designed and developed, and is now made, very equally between them. Andrew and Joanna both trained at West Surrey College of Art and Design (Farnham) and always wanted to make pots, to run their own pottery, a single minded and simple view of the world which they find amusing now. In each case their first interest had been in more sculptural work; Jo was attracted by the work of Hans Coper and Ruth Duckworth, and Andy was influenced by John Reeve whilst at Farnham. The seeds of interest in production and in functional ware were sown by their first year tutor, Gwyn Hanssen, and grew during a time spent working with her in France. The scale of production at French country potteries impressed them as did the careful work by Gwyn herself.

After Farnham and a year's A.T.C. course at Goldsmith's College, Jo and Andy had the opportunity to take over Peter Starkey's pottery at Hunworth in Norfolk. At the same time they received a Crafts Council setting up grant giving them the chance to try their hand at making lots of the sort of quiet pots they admired. Their work was quickly spotted by David Cantor who ordered work for Craftwork, and gave them an exhibition. Other gallery and shop owners saw their work at the Craftsmen Potters Shop. Their ambition to stock the David Mellor shops took rather longer and a great deal of persistence to realise, but now their work is one of the best selling lines.


In 1981 the Youngs moved to Gresham where they have two large barn spaces for throwing, shaping and glazing the pots, storage and packing areas, the kiln, a small display area, and two wind surfers. They now have two assistants, Claire Robinson, a Farnham

graduate who throws, and Janet Annison who mixes glazes, pugs the clays and packs pots. Andy now throws the crocks, jugs, storage jars, mugs and teapots and Jo makes the casseroles, butter dishes, pie dishes, plates and lemon squeezers, a division of labour made purely for efficiency. They both use Leach kick wheels, apart from using an electric wheel to throw the large crocks.

Much of the work is shaped and adapted after it has left the wheel, when it is leather hard. For example the oval casseroles are thrown round and then a section is cut out of the base, the pot is drawn together and the base rejoined with a coil to achieve the oval. The lid has a strip removed from across the centre and is then rejoined. Handles have to be attached and the attractive name stamp imprinted.

The pots are then raw-glazed using two standard glazes, one for the exterior, one for the interior. The same glaze is used to achieve the warm soft brown as the dark glossy green, the glaze is just applied more thickly to get the green. The Youngs use an oil fired kiln, with a top temperature of 1280-1300°C reached in about 28 hours. Wood is added after the kiln reaches 1100°C to help reduction and warm the colours. Once the top temperature has been reached the kiln is cooled quickly for 1½ hours and then clammed up and left for two days to cool completely.

The current range of pots dates from the move to Gresham. It took a while to develop a range which they felt happy with. Having known each other, and potted together, since college days, most design developments have been made mutually and naturally, sometimes even without discussion. They claim, with characteristic modesty, to have forgotten everything about glazes, clay bodies and firing that they do not use today. This seems doubtful but it is certainly true that they are far more concerned with the design of the product than with the way that it is made. They are both perfectionists and have refined each item over the years – the range is far simpler now, in shape and decoration. Although the pottery has its roots in French and English traditional country pottery and is sometimes described as country pottery, it is a misleading label. The range is now far more sophisticated than the word implies.



Although they have no ideological objection to other people making the work, and indeed like a degree of anonymity and mass-production in the pots, they have found it very hard to come to terms with it in practise. However good their assistants are they can see tiny differences even if no-one else can. One result is an even greater discipline in defining the pots and in teaching others. Andy, ironically, even has to stamp the name A J YOUNG on himself as he just does not feel it looks quite the same when anyone else does it.



On the face of it the Youngs seem contented and absorbed in their work – but they confess to worrying at an itch, an itch that has been with them now for about five years. This must mean that it started at the time that they felt that they were getting this range of pots about right! Jo and Andy's itch is about the validity of their pots and being a potter. They no longer discuss just the pots themselves but, twelve years on, discuss what sort of life the pots they should make would produce – a sure sign of age! The itch is a troublesome desire for change, a need to experiment and make new things but without losing the satisfaction they enjoy in production and the scale of their business.

It is a real dilemma; on the one hand their expressed discomfort at pots picked out in spotlight on plinths, their pleasure in the masses of useful pots, piled up in use; on the other their need to explore new ideas, the need for more time in their lives and the knowledge that developing a new range would not satisfy them for long the second time round. The new ideas will not burst out quickly, they have invested in a small kiln for experiments, they will be carefully considered. The pots will be worth waiting for.

Barbar Taylor

# Y Gyfres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH RHIF 24

## A & J YOUNG: CROCHENYDDION GWLEDIG



'Pan fydda i'n eistedd yn gweithio wrth y droell, ac yn edruych drwy'r ffenestr ar ffermwr yn torri cwysi yn y case gyferbyn, fe fydda i'n meddwl weithiau nad oes fawr o wahaniaeth rhwng ei waith ef a'n gwaith ninnau.'

Arhosodd y ddelwedd hon o eiddo Andrew yn hir yn fy nghof ar ôl i mi gefnu ar ffyrdd Norfolk a gadael gweithdy Andrew a Joanna Young. Fe arhosodd gyda fi, nid oberwydd y cyfeiriad rhamantus at fywyd oesol y wlad, ond am ei fod yn mynegi cymaint am syniadau a gwaith y ddau. Gwnaed y gymhariaeth yn gwbl ddifrif gan fod ganddynt y parch mwyaf i fedrusrwydd a chan eu bod ynn sylweddoli fod gofyn cynllunio a manylder i aredig maes yn briodol. Roedd y ddelwedd yn addas hefyd am ei bod yn cyfleu eu fordd ddistadl a diymhongar o ystyried eu gwaith, y trylwyredd tawel sy'n nodweddu eu hymroddiad i greu perffeithrwydd, cydbwysedd syml a phrydferthwch ffurf.

Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth ag aredig hefyd yn cyfleu'r tensiwn sydd ymhlyg yn eu gwaith. Ar ôl deuddeng mlynedd yn datblygu ac yn cynhyrchu eu cyfres o grochenwaith domestig maent yn dal yn gwbl ymroddedig ac yn gaeth i broses rythmig y cynhyrchu, yn ymdrechu am berffeithrwydd ac yn cael boddhad yn y rhengoedd cynyddol o lestri gwahanol sy'n llenwi silffoedd y gweithdy. Ond ar yr un pryd teimlant rwystredigaeth oberwydd yr ailadrodd cyson a'r oriau meithion o waith. Tra'n eistedd wrth y droell maent hefyd yn cael eu digalonni wrth ragweld y rhengoedd o lestri sydd eto heb eu llunio yn ymestyn i'r dyfodol.

Mae Andrew a Joanna Young yn cynhyrchu ystod gyflawn o grochenwaith domestig; llestri bara, dysglau pobi, colanderau, amrywiaeth sy'n ymestyn o blatiau a mygiau i ddysglau menyn a gwasgyddion lemwn. Rhannwyd y dasg o gynllunio a datblygu'r llestri yn ogystal â'u cynhyrchu yn bur gyfartal rhyngddynt. Hyfforddwyd Andrew a Joanna Young yng Ngholeg Celf a Chynllunio Gorllewin Surrey (Farnham) ac o'r cychwyn roeddynt yn awyddus i lunio llestri ac i redeg eu crochendy eu hunain, agwedd syml ac unplyg at y byd sy'n eu taro'n ddoniol erbyn heddiw. Yn achos y ddau ohonynt roedd eu diddordeb cyntaf mewn gwaith mwy cerfluniol; cafodd Jo ei denu gan waith Hans Coper a Roth Duckworth, a dylanwadwyd ar Andy gan John Reeve tra oeddynt yn Farnham. Deffrowyd eu diddordeb m ewn cynhyrchu ac mewn crochenwaith defnyddiol gan Gwyn Hanssen, eu tiwtor yn ystod y flwyddyn gyntaf, a datblygodd ymhellach yn ystod y cyfnod a dreuliwyd yn gweithio gyda hi yn Ffrainc. Gwnaed argraff arnynt gan raddfa cynhyrchu crochendai gwledig Ffrainc a chan waith trylwyr Gwyn ei hunan.

Yn dilyn Farnham a blwyddyn ar gwrs A.T.C. yng Ngholeg Goldsmith, cafodd Jo ac Andy gyfle i gymryd crochendy Peter Starkey yn Hunworth, Norfolk, drosodd. Ar yr un pryd cawsant grant sefydlu gan y Cyngor Crefft a rhoddodd hynny iddynt y cyfle i droi eu llaw at gynhyrchu llaweroedd o'r mathau o lestri diymhongar yr oeddynt yn eu hedmygu gymaint. Daeth eu gwaith yn fuan i sylw David Cantor ac fe archebodd ef waith ar gyfer 'Craftwork' a threfnu arddangosfa o'u gwaith. Gwelodd perchnogion orielau a siopau eraill eu gwaith yn y 'Craftsmen Potters Shop'. Cymerodd eu huchelgais i gyflenwi siopau David Mellor gryn dipyn yn hwy a chryn fesur o ddyfalbarhad i'w sylweddoli, ond

erbyn hyn eu gwaith hwy yw un o'r pethau sy'n gwerthu orau yn y siopau hynny.


Ym 1981 symudodd Andrew a Joanna Young i Gresham ac yno mae ganddynt ddwy ysgubor helaeth ar gyfer gweithio ar y droell, ffurfio a gwydro'r llestri, storio a phacio, odyn a man arddanos bychan a dau fwrdd hwylio. Erbyn hyn mae ganddynt ddau gynorthwywr, Claire Robinson a raddiodd yn Farnham ac sy'n gweithio ar y droell a Janet Annison sy'n cymysgu gwydreddau, yn paratoi clai ac yn pacio llestri. Ar hyn o bryd Andy sy'n llunio'r llestri pridd, jygiau, jariau storio, mygiau a thebotiau a Jo sy'n gwneud caserolau, dysglau menyn, dysglau pastai, platiau a gwasgyddion lemwn; dull o rannu gwaith a fabwysiadwyd yn unig er lles effeithiolrwydd. Mae'r ddau'n defnyddio troell droed Leach, a dim ond ar gyfer y llestri pridd mwyaf y defnyddiant droell drydan.

Caiff llawer o'r gwaith ei ffurfio a'i addasu ar ôl iddo ddod oddi ar y droell tra mae'n dal heb lawn galedu. Er enghraifft, caiff y caserolau hirgrwn eu llunio'n grwn ar y droell ac yna torrir rhan allan o'r gwaelod, tynnu'r llestr at ei gilydd a chwblhau'r gwaelod gyda thorch o glai er mwyn cael y ffurf hirgrwn. Tynnir stribed i ffwrdd o ganol y caead ac yna gwasgu'r caead at ei gilydd. Yna dodir dolenni ar y llestr ac argraffu'r stamp enw atyniadol arno.

Y cam nesaf yw dodi gwydredd crai ar y llestri gan ddefnyddio dau wydredd, y naill ar gyfer y tu allan a'r llall ar gyfer y tu fewn. Yr un gwydredd a ddefnyddir i gynhyrchu'r brown meddal cynnes a'r gwyrdd tywyll disglair, ond bod yn rhaid defnyddio rhagor o drwch o'r gwydredd i gynhyrchu'r lliw gwyrdd. Defnyddir odyn sy'n cael ei thanio gan olew, ac sy'n cyrraedd uchafbwynt tymheredd o 1280-1300°C mewn tua 28 awr. Ychwanegir coed ar ôl i'r tymheredd godi i 1100°C i gynorthwyo'r rhydwythiad ac i greu lliwiau cynhesach. Unwaith y mae'r tymheredd wedi cyrraedd ei uchafbwynt caiff yr odyn oeri'n gyflym am awr a hanner ac yna ei chau i lawr a'i gadael am ddau ddiwrnod i oeri'n llwyr.

Mae'r gyfres o lestri a gynhyrchir ar hyn o bryd yn dyddio o'r amser y symudwyd i Gresham. Cymerodd beth amser i ddatblygu cyfres y teimlent yn fodlon arni. Gan eu bod wedi adnabod ei gilydd ac wedi cydweithio er dyddiau coleg, datblygwyd y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn naturiol ar y cyd, heb unrhyw-drafodaeth hyd yn oed mewn rhai achosion. Gyda'u gwyleidd-dra nodweddiadol haerant eu bod wedi anghofio popeth am y gwydreddau a'r mathau o glai a'r dulliau o danio nad ydynt yn gwneud defnydd obonynt bellach. Mae'n anodd credu hynny, ond mae'n sicr o fod yn wir fod ganddynt lawer mwy o diddordeb yng nghynllun yr hyn a gynhyrchir nag yn y dull o'i gynhyrchu. Mae'r naill a'r llall yn berffeithydd ac maent wedi perffeithio pob eitem dros y blynyddoedd – mae'r gyfres yn llawer symlach erbyn hyn o ran ffurf ac addurn. Er mai yng nghrochenwaith gwledig draddodiadol Prydain a Ffrainc y mae gwraidd y crochenwaith ac y caiff ei ddisgrifio weithiau fel crochenwaith gwledig, mae'r enw hwnnw yn un camarweiniol. Mae'r gyfres erbyn hyn yn llawer mwy soffistigedig nag mae'r enw'n ei awgrymu.





Er nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad ideolegol i bobl eraill wneud y gwaith, a'u bod yn wir yn croesawu elfen o'r anhysbys ac o fas-gynhyrchu ynb y llestri, nid ar chwarae bach y maent wedi llwyddo i ddygymod â'r sefyllfa. Waeth pa mor dda yw eu cynorthwywyr, maent yn gallu sylwi ar fân wahaniaethau hyd yn oed os nad ydynt yn amlwg i unrhyw un arall. Un o ganlyniadau hyn yw disgyblaeth lymach fyth wrth ddiffinio'r llestri ac wrth hyfforddi eraill i wneud y gwaith. Yn eironig ddigon, mae Andy hyd yn oed yn mynnu stampio'r enw A & J YOUNG ar bob eitem â'i law ei hun, gan nad yw'n teimlo'n gwbl hapus ei fod yn edrych yn union yr un fath pan wneir y gwaith hwnnw gan rywun arall.

Ar yr wyneb mae Andrew a Joanna Young yn ymddangos fel pe baent yn fodlon yn eu gwaith ac wedi llwyr ymgolli ynddo – ond maent yn cyfaddef eu bod yn ymwybodol o ysfa sydd wedi bod yn eu poeni ers tua phum mlynedd. Mae hyn yn golygu i'r ysfa gychwyn yn ystod yr amser pan oeddynt wedi dod yn bur fodlon ar y gyfres o lestri y maent yn ei llunio ar hyn o bryd: yr hyn sy'n pryderu Jo ac Andy yw cwestiynau yn ymwneud â dilysrwydd eu gwaith a dilys-crwydd y cyflwr o fod yn grochenyddion. Nid y llestri'n unig y maent yn eu trafod bellach ond, ar ôl deuddeng mlynedd, maent yn trafod y math o fywyd y byddai'r llestri y dylent eu llunio yn ei gynhyrchu – arwydd sicr eu bod yn dechrau heneiddio! Awydd aflonydd am newid yw'r ysfa, angen i arbrofi ac i dorri tir newydd a hynny heb golli gafael ar y bodlonrwydd sy'n dod iddynt wrth gynhyrchu ac wrth wneud hynny ar y raddfa bresennol.

Mae'r gyfyng-gyngor gwirioneddol: ar y naill law mae'r anniddigrwydd a fynegwyd ganddynt ynghylch potiau wedi eu gosod ar besastl o dan lifoleuadau a'r pleser a rydd y lliaws potiau defnyddiol yn bentyrrau parod iddynt; ac ar y llaw arall eu hangen i archwilio syniadau newydd, yr angen am ragor o amser yn eu bywyd a'r ymwybyddiaeth na fyddai datblygu cyfres newydd am yr eildro yn dod â bod-lonrwydd parhaol iddynt. Nid ar frys y daw'r syniadau newydd i olau dydd, maent wedi buddsoddi mewn odyn fechan ar gyfer arbrofi ac fe gaiff pob cam o'r gwaith ei bwyso a'i fesur yn bwyllog. Byddant yn llestri gwerth aros amdanynt.

Barbara Taylor

© CANOLFAN Y CELFYDDYDAU 